

Gomer
BECHGYN AM BYTH!
Ar y fferm
Felice Arena * Phil Kettle
Lluniau gan
SUSY BOYER

# Cynnwys

PENNOD 1
**Allan i'r Wlad** 1

PENNOD 2
**Gwartheg Pinc** 6

PENNOD 3
**Amser Godro** 14

PENNOD 4
**Pwy sy'n Hen Law?** 20

PENNOD 5
**Dom!** 27

MWY O STWFF
- Geiriau Gorau y Fferm 33
- Pethau Pwysig y Fferm 34
- Ffeithiau Ffynci 36
- Holi am Hwyl 38
- Haia Fechgyn! 40
- Pan Oedden Ni'n Blant 42
- Jôc! 43

PENNOD 1

# Allan i'r Wlad



I Twm a Jac, gwyliau'r ysgol yw adeg orau'r flwyddyn. Y tro hwn, mae'r ddau ffrind yn mynd i aros ar fferm laeth un o ffrindiau tad Twm. Mae mam Twm yn mynd â'r bechgyn allan i'r wlad yn y car – maen nhw'n eistedd yn y sedd gefn.



**Twm** Dw i'n edrych ymlaen yn ofnadwy!

**Jac** A fi. Diolch am ofyn i fi ddod. Mae hyn yn mynd i fod yn cŵl iawn. Dw i ddim wedi bod ar fferm o'r blaen. Pan fyddwn ni'n cyrraedd, ydyn ni'n mynd i fod yn ffermwyr?

**Twm** Ydyn, fwy neu lai, os byddwn ni'n ymddwyn fel Bil, ffrind Dad.



**Jac** Sut, felly?

**Twm** Wel, mae Bil yn mynd o gwmpas y lle â'i fodiau yn ffrynt ei drywsus.

**Jac** Wel, galla i wneud hynny.

**Twm** Ac mae'n rhaid cnoi darn o wellt ar yr un pryd.

**Jac** Dim problem!





**Twm** Hefyd, pan wyt ti'n ffermwr mae llwyth o waith i'w wneud bob amser.

**Jac** Fel beth?

**Twm** Wel, mae'n rhaid godro'r gwartheg.

**Jac** Pam?

**Twm** Ym, ar ba blaned wyt ti'n byw? *I gael llaeth*, wrth gwrs.



**Jac** Ond rwyt ti'n prynu llaeth o siop.

**Twm** Wyt, ond mae'r llaeth yn dod o'r gwartheg gynta.

**Jac** O, ro'n i'n meddwl 'u bod nhw'n gwneud llaeth mewn siopau.

**Twm** Wir? Wrth gwrs nad ydyn nhw!

**Jac** Dw i erioed wedi meddwl am y peth. Mae Mam yn ei arllwys allan o botel a dw i'n ei yfed. Hei, dyma ni wedi cyrraedd!



PENNOD 2

# Gwartheg Pinc



Roedd y daith i'r fferm yn teimlo'n hir ofnadwy i Twm a Jac. Mae Bil yn eu croesawu nhw ac mae ganddo ddarn o wellt yn ei geg. Mae'n poeri'r gwellt allan ac yn dweud wrth y bechgyn eu bod nhw wedi dod ar amser da – jest mewn pryd i'w helpu i odro'r gwartheg. Mae Twm a Jac yn newid eu dillad ac yn gwisgo'r welingtons mae Bil wedi eu rhoi iddyn nhw.



**Jac** Wyt ti wedi godro buwch erioed?

**Twm** Ydw, dw i'n hen law ar y gwaith!

**Jac** Faint o wartheg wyt ti wedi'u godro?

**Twm** Wel, dim ond un. Ond roedd hi'n un anferth.

**Jac** Dim ond un? Dw i ddim yn meddwl fod hynna'n dy wneud di'n hen law.





**Twm** Dw i wedi gweld llawer o luniau o bobl yn godro gwartheg hefyd.

**Jac** Hy! Dw i wedi gweld lluniau o ddringwyr yn sefyll ar ben mynydd Everest, ond dyw hynny ddim yn fy ngwneud i'n ddringwr da.

**Twm** Wel, dw i'n gwbod mod i'n gallu godro'n dda, ta beth.



Mae Bil yn mynd â'r bechgyn i'r parlwr godro. Mae'n dweud wrth gŵn y fferm fynd i nôl y gwartheg. I ffwrdd â'r cŵn ar ras i waelod y cae at y gwartheg. Maen nhw'n cyfarth arnyn nhw a'u gyrru tua'r parlwr godro.

**Jac** Mae cŵn fferm yn glyfar.

**Twm** Ydyn, ac maen nhw'n gweithio'n galed hefyd.





**Jac** Dw i'n meddwl bod pawb sy'n byw ar fferm yn gorfod gweithio'n galed iawn.

Mae Jac a Twm yn sefyll yn y parlwr godro ac yn gwylio'r cŵn yn gyrru'r gwartheg.



**Twm** Hei, edrych ar yr holl wartheg 'na! On'd ydyn nhw'n edrych yn wych? Rhaid bod dros hanner cant ohonyn nhw!

**Jac** Ac maen nhw i gyd yn lliwiau gwahanol!

**Twm** Ydyn. Brown, gwyn, du, du-a-gwyn, pob math!





**Jac** Ble mae'r rhai pinc?
**Twm** Beth? Dwyt ti ddim o ddifri?

Dyw Jac ddim yn ateb.

**Twm** Paid â dweud dy fod ti o ddifri!
**Jac** Wel, os nad oes gwartheg pinc, o ble mae llaeth pinc yn dod?



**Twm** Ym, wel, o'r un lle â llaeth gwyn, wrth gwrs. Mae'n rhaid rhoi lliw pinc yn y llaeth, dyna'r cwbl.
**Jac** Wyt ti'n siŵr?
**Twm** Yn hollol siŵr. Dere, mae'n bryd i ni fod yn ffermwyr go iawn!



PENNOD 3

# Amser Godro



Mae'r gwartheg yn cerdded yn hamddenol i mewn i fuarth y fferm. 'Ar ôl i'r gwartheg fynd i mewn i'r mannau godro, rhaid i chi olchi eu cadair, yna gosod y cwpanau ar y tethau,' meddai Bil wrth y bechgyn.



**Twm** Rwyt ti'n gwbod beth yw cadair buwch, wyt ti? Edrych o dani. Dyna beth yw hwnna!

**Jac** O. Ym, ydy gwartheg yn cnoi?

**Twm** Cnoi pobl? Nac ydyn. Cnoi glaswellt? Ydyn. Hei, gallen nhw feddwl mai glaswellt yw dy wallt di a'i gnoi.





**Jac** Wir? Falle dylwn i wisgo het.


Mae'r gwartheg yn dechrau mynd i mewn i'r mannau godro. Mae Bil yn dangos i'r bechgyn sut i olchi'r cadeiriau a sut i osod y cwpanau godro ar y tethau.



**Twm** Y tethau yw'r pethau sy'n hongian o'r cadair. Maen nhw'n edrych fel bysedd trwchus.

**Jac** Mae hyn yn od iawn!

Mae'r pwmp godro'n dechrau gweithio, ac yn sydyn mae cymaint o sŵn yn y parlwr godro nes bod yn rhaid i'r bechgyn weiddi cyn gallu clywed ei gilydd.





**Jac** Sut mae'r peiriant yn gweithio 'te?

**Twm** Mae'r peiriant yn sugno'r llaeth o'r fuwch, yna mae'r llaeth yn llifo trwy'r peipiau ac i mewn i'r tanc mawr draw fan'na.



**Jac** Beth sy'n digwydd wedyn?

**Twm** Mae lorri fawr yn casglu'r llaeth i'w wneud yn barod i'w roi yn y siopau. Wyt ti'n barod i osod cwpanau ar rai o'r gwartheg?

**Jac** Ydw, dw i'n meddwl.



PENNOD 4

# Pwy sy'n Hen Law?



Mae Jac a Twm yn gorffen golchi'r cadeiriau â rhecsyn gwlyb, cynnes, yna mae'n bryd gosod y cwpanau ar y tethau. Mae'r ddau fachgen yn oedi.




**Jac** Gwell i ti ddangos i fi gynta sut mae gwneud, gan dy fod di'n hen law.

**Twm** Oes ofn arnat ti?

**Jac** Na! Dim ond eisiau bod yn siŵr mod i'n gwneud yn iawn, dyna'r cwbl.

**Twm** Reit. Symuda o'r ffordd. Gad i fi weld.





Mae Bil yn gweld nad yw'r bechgyn yn siŵr beth i'w wneud ac mae'n helpu Twm i osod y cwpanau ar dethau un fuwch.

**Twm** Dyna fe, mae'n rhwydd!

**Jac** Ydy, iawn. Ond doeddet ti ddim yn gwbod beth i'w wneud tan i Bil ddod draw i ddangos i ti eto.



**Twm** Twt, rhaid 'i fod e wedi anghofio mod i'n hen law.

**Jac** Hen law, wir! Dw i ddim yn meddwl dy fod ti'n gwbod llawer mwy am ffermio nag ydw i!

**Twm** Wir? Pwy ofynnodd o ble mae llaeth yn dod? A ble oedd y gwartheg pinc? Cer o'r ffordd. Gei di weld. Dw i'n mynd i osod y rhain ar fy mhen fy hun.





Mae Twm yn mynd ar ei liniau ac yn gosod y cwpanau ar y fuwch. Mae'n gwenu wrtho'i hun.

**Jac** Dyna ti, fuwch fach, gobeithio nad ydyn nhw'n gwneud dolur i ti. Mae'n bryd i ti adael i dy llaeth lifo.




**Twm** Beth wyt ti'n wneud nawr?

**Jac** Siarad â'r fuwch – dweud wrthi 'i bod hi'n bryd iddi adael i'w llaeth lifo.

**Twm** Mae hi'n siŵr o fod yn gwbod hynny'n barod.

Mae'r bechgyn yn gwylio'r llaeth yn llifo trwy'r pibau plastig clir.





**Jac** Pryd ydyn ni i fod i dynnu'r cwpanau i ffwrdd?

**Twm** Pan wyt ti'n gweld bod y llaeth wedi stopio llifo trwy'r peipiau.

**Jac** Ew, mae'n rhaid i ti fod yn glyfar i fod yn ffermwr. Hei, beth mae hon yn wneud nawr? Pam mae hi'n codi'i chynffon?

**Twm** (yn chwerthin) Ym, cer yn nes ac fe gei di weld.



PENNOD 5

# Dom!



Wrth i Jac gymryd cam yn nes ati, mae'r fuwch yn rhoi fflic i'w chynffon ac mae llif o ddom yn saethu o'i phen-ôl i'r llawr fel dŵr o beipen. Mae peth ohono'n tasgu i mewn i welingtons Jac. Daw golwg o arswyd ar wyneb Jac ac mae e'n teimlo fel chwydu. Mae Twm a Bil yn chwerthin nes eu bod nhw'n sâl.



**Jac** Ych a fi! Dyw hynna ddim yn ddoniol!

**Twm** (yn dal i chwerthin) Ydy, mae e! Ddylet ti weld dy wyneb di!

**Jac** Edrych! Mae e dros y lle ym mhobman! Tybed allwn ni ei gasglu a'i werthu i bobl i'w ddefnyddio yn eu gerddi? Mae dom yn gwneud i blanhigion dyfu, on'd yw e?



**Twm** Ydy, ond 'gwrtaith' maen nhw'n ei alw, nid 'dom'! Hei, gan dy fod ti'n sefyll ynddo fe, falle byddi di'n tyfu'n dal!

**Jac** Ie, ond dim mewn yn un welington mae e. Os yw e'n gweithio'n dda bydd gen i un goes yn hirach na'r llall!

Erbyn hyn, mae Jac yn gweld y jôc ac mae'n chwerthin gyda Twm.





**Twm** Wyt ti eisiau i fi lenwi'r welington arall hefyd?

**Jac** Iawn, wedyn falle bydda i'n tyfu'n dal iawn.

Mae Jac yn tynnu ei welington i ffwrdd ac yn ei lanhau. Mae Bil yn diolch i'r bechgyn am helpu ac yna maen nhw'n cerdded drwy'r cae i'r ffermdy, ar eu ffordd i gael rhywbeth i fwyta.



**Jac** Hei, dyna od. Edrych! Mae Bil wedi anghofio godro un fuwch. Ew, mae hi'n anferth, ac mae hi'n rhedeg tuag aton ni. Twm? Twm?

**Twm** (yn gweiddi) Rhed, Jac! Nerth dy draed! Tarw yw hwnna, nid buwch, ac mae e'n dod amdanon ni!

Mae Jac a Twm yn rhuthro am y ffens. Dim ond newydd neidio drosto maen nhw cyn i'r tarw gyrraedd.





**Jac** (allan o wynt) Ew! Roedd hi bron ar ben arnon ni. Ffantastig! Mae bod ar fferm yn wych.

**Twm** Ym . . . Wyt ti'n meddwl?

Mae Twm yn gweld ei fod wedi glanio mewn pwll o ddom, ac mae'r dom dros ei jîns i gyd. Mae'r ddau fachgen yn pwffian chwerthin.



BECHGYN AM BYTH!



Twm

# Geiriau Gorau y Fferm



Jac

**ci fferm** Ci sy'n byw ar fferm. Mae ci fferm yn helpu i nôl y gwartheg a'r defaid.

**gwair** Porfa neu laswellt sydd wedi tyfu mewn cae. Mae'n cael ei dorri a'i adael i sychu. Yna mae'r gwellt yn cael ei gasglu'n fyrnau sy'n cael eu gosod mewn pentwr.

**parlwr godro** Lle mae gwartheg yn cael eu godro. Weithiau mae'n cael ei alw'n sied odro.

**cadair** Y rhan o'r fuwch sy'n cynhyrchu llaeth. Mae'n edrych fel bag yn hongian o dan y fuwch. Enwau eraill ar y cadair yw'r 'pwrs' neu'r 'piw'.

**tethau** Mae'r rhain yn dod allan o biw y fuwch. Maen nhw'n edrych fel bysedd tew.

BECHGYN AM BYTH!

# Pethau Pwysig y Fferm

- ☞ Cadwch eich ceg ar gau wrth gerdded yn y caeau – neu gallech chi lyncu pryfyn.
- ☞ Rhaid gadael gatiau fferm fel rydych chi'n dod ar eu traws nhw. Os ydych chi'n eu gadael ar agor pan oedden nhw ar gau, bydd y gwartheg yn gallu dianc allan o'r caeau.
- ☞ Mae canu yn y parlwr godro yn gwneud y gwartheg yn hapus iawn ac yn eu helpu i roi mwy o laeth.
- ☞ Cofiwch drin ci fferm yn garedig bob amser – mae'n un o'r gweithwyr mwyaf caled ar y fferm.
- ☞ Cofiwch wisgo het haul wrth weithio allan yn y caeau. Rhaid bod yr un mor ofalus o'r haul yn y wlad ag ar y traeth.
- ☞ Gofalwch archwilio'r ffensys bob amser i wneud yn siŵr nad oes tyllau ynddyn nhw. Os oes, rhaid eu trwsio nhw ar unwaith, neu fydd dim anifeiliaid ar ôl ar y fferm.
- ☞ Rhaid trin anifeiliaid fferm yn garedig bob amser.




# Ffeithiau Ffynci

- Llo yw enw babi buwch.
- Gwaith cath ar fferm yw dal llygod.
- Rhaid godro'r gwartheg yn y bore a'r pnawn.
- Er mwyn cynhyrchu llaeth, mae'n rhaid i fuwch gael llo bob blwyddyn.
- Dim ond am 48 awr mae llo yn aros gyda'i fam.
- Mae gan fuwch bedwar stumog.



- Mae angen 22 litr o laeth ar gyfer gwneud 1 cilogram o fenyn.
- Cynnyrch llaeth yw'r enw ar fwydydd fel caws, menyn, iogwrt a hufen, sydd wedi eu gwneud o laeth.
- Wrth i wartheg gael eu godro, mae cwpanau arbennig yn cael eu gosod ar eu tethau. Mae'r cwpanau'n gwasgu'r tethau'n ysgafn, yn union fel y mae llo'n ei wneud, er mwyn sugno'r llaeth o'r fuwch.
- Mae buwch fel arfer yn rhoi tua 15 litr o laeth bob dydd.



# Holi am Hwyl

1 Os mai buwch yw'r fenyw, beth yw'r gwryw?

2 Ydy gwartheg i gyd yr un lliw?

3 Ydych chi'n meddwl y byddai gwartheg yn mwynhau bwyta pasteiod cig?

4 Beth yw'r enw ar grŵp o wartheg?

5 Sawl stumog sydd gan fuwch?

6 Sawl gwaith y dydd y mae angen godro buwch?

7 Ydy pryfed yn hoffi byw ar ffermydd?

8 Pam y dylech chi wisgo welingtons wrth gerdded o gwmpas fferm?

## Atebion

1. Tarw yw'r gwryw.
2. Na. Mae llawer o liwiau gwahanol ar wartheg – ond dyw pinc ddim yn un ohonyn nhw!
3. Na. Dyw gwartheg ddim yn bwyta cig.
4. Gyr yw'r enw ar grŵp o wartheg.
5. Mae gan fuwch bedair stumog.
6. Mae angen godro buwch ddwywaith y dydd.
7. Mae pryfed wrth eu bodd yn byw ar ffermydd.
8. Dylech chi wisgo welingtons rhag ofn i chi sefyll mewn dom.

## Beth oedd eich sgôr?

- Os cawsoch chi 8 ateb cywir, byddech chi'n dda iawn ar fferm. Rydych chi'n ffermwr naturiol!
- Os cawsoch chi 6 ateb cywir, rydych chi'n ddigon hapus i wisgo welingtons a gwneud ychydig bach o waith ar fferm.
- Os cawsoch chi lai na 4 ateb cywir, y peth gorau i chi ei wneud ar fferm yw bwydo'r ieir.